General Optical Council

**GWIRIO CYMWYSTERAU**

Cyn cyflwyno eich ffurflen gais ryngwladol i'r Cyngor Optegol Cyffredinol, mae'n rhaid i chi wirio eich cymwysterau drwy'r porth Gwirio Cymwysterau.

I wneud hyn, mae angen i chi ddilyn y camau isod:

| | |
|---|---|
| Cam 1 | Cofrestru a Chwblhau'r broses wirio |
| | Cofrestrwch i wirio eich cymwysterau drwy roi eich manylion yn:<br><br>https://goc.qualificationcheck.com/<br><br>Edrychwch yn eich blwch derbyn am e-bost gan: do-not-reply@qualificationcheck.com gyda'r llinell pwnc: 'Verify your QualificationCheck.com Registration'. Dilynwch y ddolen a chreu eich cyfrinair i orffen mewngofnodi. |
| Cam 2 | Manylion yr Ymgeisydd a Chwilio am Sefydliad |
| | Ar ôl mewngofnodi, atebwch gwestiynau'r cais. Ar ôl i'r cwestiynau gael eu cwblhau, byddwch yn cael cyfarwyddyd i deipio enw'r sefydliad a ddyfarnodd eich cymhwyster. (e.e. y Brifysgol a roddodd eich cymhwyster diwethaf) Wrth i chi deipio, bydd rhestr o sefydliadau yn ymddangos ar y gwaelod. Cliciwch ar enw'r sefydliad lle buoch chi'n astudio. |
| Cam 3 | Rhowch Fanylion y Cymhwyster |
| | Rhaid i chi roi eich manylion unigol (enw a dyddiad geni) fel maent yn ymddangos ar eich cymhwyster. Yna, rhaid i chi roi manylion angenrheidiol y cymhwyster yn unol â'r cyfarwyddiadau ar y porth. |
| Cam 4 | Caniatâd a Dogfennau Eraill |
| | Sgroliwch i lawr i'r Adran Dogfennau. O dan Ffurflen Ganiatâd y Sefydliad, cliciwch lle mae'n dweud 'Llwytho i Lawr a Llofnodi'. Bydd hyn yn agor dogfen ffurflen ganiatâd. Llenwch y ffurflen a'i llofnodi ac yna ei llwytho i fyny drwy glicio ar y botwm 'Llwytho i Fyny' isod lle mae'n dweud Ffurflen Ganiatâd Sefydliad. Derbynnir e-lofnod gan sefydliadau oni nodir yn wahanol.<br><br>Os oes angen dogfennau ychwanegol ar y sefydliad ar gyfer y gwirio, llwythwch fersiwn PDF i fyny i'r porth i'w gyflwyno. |

| | |
|---|---|
| Cam 5 | Cyflwyno a Chwblhau cais a Thaliad |
|  | Bydd sgrin yn ymddangos yn gofyn i chi gadarnhau a ydych chi wedi cyflwyno'r holl gymwysterau perthnasol i'w gwirio. Os ydych chi, cliciwch ar y botwm 'Do, Cyflwyno a Chwblhau cais' a gwneud y taliad. |
| Cam 6 | Aros |
|  | Bydd Gwirio Cymhwyster yn gwirio eich cymhwyster yn uniongyrchol gyda'r sefydliad dyfarnu. Byddwch yn amyneddgar gan y gall hyn gymryd amser wrth iddynt wirio eu cofnodion. |
| Cam 7 | Cadarnhau Gwiriad |
|  | Ar ôl i'ch cymhwyster gael ei wirio, byddwch yn cael e-bost i roi gwybod i chi.<br><br>Bydd canlyniad y gwiriad yn cael ei rannu'n awtomatig â'r Cyngor Optegol Cyffredinol.<br><br>Bydd y Cyngor Optegol Cyffredinol yn cysylltu â chi'n uniongyrchol ynghylch y camau nesaf unwaith y bydd eich cymwysterau wedi eu gwirio wedi cael eu hadolygu. |
| | Mae Qualification Check yn gwmni sy'n cydymffurfio â GDPR ac sy'n arbenigo mewn gwirio cymwysterau academaidd a phroffesiynol yn fyd-eang. Os oes gennych chi gwestiynau am y broses wirio, cysylltwch â: applicantsupport@qualificationcheck.com |